



# Datganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau

MEDI 2017



## **Rheoli fersiynau**

Cymeradwywyd y fersiwn (1) hon o Ddatganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ar 12 Medi 2017.

Mae Adran 47(1)(f) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi datganiad o'n polisi mewn perthynas ag arfer ein swyddogaethau o dan Adran 46(1) (Adolygu ac ymchwil). Byddwn yn adolygu datganiadau polisi a baratowyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf, ac os byddwn o'r farn ei bod yn briodol, yn sgil adolygiad, byddwn yn paratoi datganiadau diwygiedig. Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf bob 3 blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y datganiad polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal erbyn mis Medi 2020 fan bellaf. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i [policy@qualificationswales.org](mailto:policy@qualificationswales.org). Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Mae'r datganiad hwn yn disodli'r Datganiad Monitro Interim a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2015 ar ein dull gweithredu interim o fonitro adolygiadau.

## Egwyddorion Cyffredinol y Datganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau

Cyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am ansawdd eu cymwysterau a'u gweithgareddau cyflawni, gyda Cymwysterau Cymru, fel y rheoleiddiwr, yn eu dwyn i gyfrif. Er mwyn gwneud hynny, gallwn gynnal adolygiadau yn unol ag Adran 46 (1) o'r Ddeddf sy'n nodi y caiff Cymwysterau Cymru adolygu'r canlynol yn gyson.

- dyfarnu cymwysterau a gymeradwywyd gan gorff cydnabyddedig;
- dyfarnu ffurfiau ar gymhwyster sydd wedi eu dynodi o dan adran 29 gan gorff cydnabyddedig;
- unrhyw weithgareddau eraill corff cydnabyddedig y mae Cymwysterau Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol i gydnabyddiaeth y corff;
- unrhyw agwedd arall ar gymwysterau.

Bydd ein gweithgareddau adolygu yn canolbwyntio ar gyflawni ein prif nodau sef:

1. sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac
2. ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Mae'r datganiad polisi hwn yn esbonio sut rydym yn arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â chymwysterau, y system gymwysterau ac adolygu gweithgareddau cyrff dyfarnu cydnabyddedig a'u cydymffurfiaeth â'r Amodau Cydnabod Safonol, yn ogystal ag unrhyw ddogfennau rheoleiddio eraill neu amodau cydnabod arbennig a all hefyd fod yn gymwys i gyrff dyfarnu neu gymwysterau penodol.

### Cynnwys

**MATHAU DANGOSOL A DIFFINIADAU O ADOLYGIADAU A ALLAI DDIGWYDD  
CYNNAL GWEITHGAREDDAU MONITRO A CHYDYMFFURFIO  
CYNNAL ADOLYGIADAU THEMATIG A SECTOR  
CANLYNIADAU ADOLYGIADAU  
DOGFEN REOLEIDDIO BERTHNASOL**

### Mathau dangosol a diffiniadau o adolygiadau a allai ddigwydd

1. Rydym yn defnyddio adolygiadau i ddisgrifio amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys:

- i. Gweithgareddau monitro a chydymffurfio, sy'n sicrhau bod cyrff dyfarnu cydnabyddedig a'r cymwysterau y maent yn eu cynnig yn cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio.
- ii. Adolygiadau sector, sef yr adolygiad[au] o gymwysterau a'r system gymwysterau o fewn sector cyflogaeth penodol rydym yn eu cynnal. Mae ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol yn amlinellu ein rhesymeg, nodau ac amcanion, llinellau ymholi a dulliau ar gyfer adolygiadau sector.
- iii. Adolygiadau thematig; rydym yn cynnal adolygiadau o faterion trawsbynciol sy'n ymwneud ag agweddau ar gymwysterau a'r system gymwysterau sydd o ddiddordeb i ni a/neu y mae rhanddeiliaid yn tynnu ein sylw atynt a all arwain at gamau gweithredu a argymhellir fel newidiadau i strwythur cymhwyster penodol a/neu drefniadau asesu, neu a all lywio gweithgareddau monitro yn y dyfodol mewn meysydd penodol. Mae ein Cynllun Strategol Cymwysterau Cyffredinol yn nodi y byddwn yn cynnal adolygiadau technegol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ein hadolygiadau thematig.

## **Cynnal gweithgareddau monitro a chydymffurfio**

2. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol wrth gynnal gweithgareddau monitro a chydymffurfio:
  - a. Bydd ein gweithgareddau monitro a chydymffurfio yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu;
  - b. Bydd ein gweithgareddau monitro a chydymffurfio yn canolbwyntio'n benodol ond nid yn unig ar risg;
  - c. Byddwn yn hysbysu cyrff dyfarnu cydnabyddedig o'n gofynion o ran gwybodaeth drwy hysbysiadau ysgrifenedig, yn unol â'n Hamodau Cydnabod Safonol;
  - d. Caiff y wybodaeth rydym yn ei chasglu drwy ein gweithgareddau monitro a chydymffurfio ei rheoli yn unol â'n prosesau llywodraethu data

## **Cynnal adolygiadau thematig a sector**

3. Oherwydd yr amrywiaeth eang o weithgareddau a allai gael eu cynnal fel rhan o adolygiad thematig neu sector, nid oes un dull penodol o gynnal adolygiadau. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol wrth gynnal gweithgareddau monitro a chydymffurfio:
  - a. Caiff cyrff dyfarnu cydnabyddedig a rhanddeiliaid perthnasol eraill eu hysbysu am adolygiad ar adeg sy'n briodol yn ein tyb ni.
  - b. Byddwn yn hysbysu cyrff dyfarnu cydnabyddedig o'n gofynion o ran gwybodaeth drwy hysbysiadau ysgrifenedig, yn unol â'n Hamodau Cydnabod Safonol

- c. Bydd pob adolygiad yn nodi ei nodau a'i fethodoleg yn glir yn ogystal â sut y caiff y canlyniadau eu cofnodi/p'un a gânt eu cofnodi. Yn dibynnu ar y math o adolygiad gellir rhannu'r wybodaeth hon â rhanddeiliaid perthnasol neu ei chyhoeddi ar ein gwefan ar adeg briodol.
- d. Os byddwn yn nodi unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol neu unrhyw ddogfennau rheoleiddio cymwys eraill a amlinellir ar ein Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio wrth gynnal ein gwaith adolygu, byddwn yn ystyried pa gamau gweithredu i'w cymryd yn unol â'n polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.

## Canlyniadau adolygiadau

4. Gellir cyhoeddi canlyniadau ein hadolygiadau a'n cynlluniau ar gyfer unrhyw gamau arfaethedig a/neu roi gwybod i randdeiliaid perthnasol amdanynt.
5. Fel yr amlinellir yn y polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith, lle y bo'n briodol, rhoddir cyfle i gyrff dyfarnu roi sylwadau ar ganlyniadau adolygiad sy'n ymwneud â nhw cyn iddynt gael eu cyhoeddi.
6. Os byddwn yn cynnig newidiadau sylweddol o ganlyniad i adolygiad, yna gellir cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol lle y bo'n briodol, er mwyn asesu effaith unrhyw opsiynau sydd ar gael.
7. Wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd gennym, byddwn yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i wneud hynny.
8. Byddwn yn adrodd ar ein gweithgarwch adolygu yn ein hadroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dogfennau rheoleiddio perthnasol

- Mae'r [Amodau Cydnabod Safonol](#) ar gael ar ein gwefan.
- Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio ein pwerau i orfodi a rhoi cosbau mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn ein polisi "[Cymryd camau pan aiff pethau o chwith](#)".
- Nid yw'r datganiad polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n dulliau penodol o fonitro cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein [Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol](#) a'n [Cynllun Strategol Cymwysterau Cyffredinol](#).